Newyddlen Siambr Fasnach a Thwristiaeth Bro Ffestiniog – 18/04/13.

Croeso i newyddlen gyntaf tîm newydd Siambr fasnach a Thwristiaeth Blaenau Ffestiniog. Mae newid mawr wedi bod o fewn y siambr ar adeg pan mae newid mawr ym Mlaenau hefyd. Rydym oll yn gobeithio bod cyfnod cyffrous o'n Blaenau gan arwain at busnes o fewn y dref yn codi. Hoffem gyflwyno'r tim newydd:

Caderydd: Clare Britton, Rheolwr fasnachol Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru.

Mae'r bai ar fy mam fy mod i yma! Mi roedd hi'n wirfoddolwr ar y rheilffordd o'r 70au cynnar a roeddwn yn dod gyda hi unwaith oeddwn ddigon hen. Fy swydd gyntaf oedd ar y cerbydau bwffe yn ystod y gwyliau haf. Mi es i i Brifysgol Bangor ac yna aros yn yr ardal gan weithio am 8 mlynedd yn Tremadog cyn dychwelyd i'r Rheilffordd yn 1991. Rwyf wedi bod yn fy swydd bresennol ers 11 mlynedd ac wedi gweld lot fawr o newidiadau a chwrdd a llwyth o fobl. Rwyf wedi bod yn aelod o'r siambr am nifer o flynyddoedd ac rwyf hefyd wedi ymuno gyda Blaenau Bendigedig. Gobeithiaf fydd fy nghysylltiadau eraill megis bod yn aelod bwrdd o Dwristiaeth Gogledd Cymru ac ar Fenter Rheilffordd Dyffryn Conwy yn ein helpu yn ein hymgais i roi Blaenau ar y map fel cyrchfan dwristiaeth.

Ysgrifennydd: Zoe Pritchard, Parti4.

Rwyf yn cyd-redeg Parti4, siop balŵns, parti, cardiau ac anrhegion ar stryd fawr Blaenau Ffestiniog gyda fy mam, Ann Pritchard. Rwy'n gweithio llawn amser i Annog Cyf sy'n arbenigo mewn cymorth busnes a chynlluniau grant Ewropeaidd. Rwyf ar hyn o bryd yn Gynghorydd Tref ar ward Diffwys a Maenofferen, ac yn aelod o Llywodraethwyr Ysgol y Moelwyn. Wedi cael fy ngeni a' magu yma yn 'Stiniog, ac yn teimlo'n gryf iawn am hyrwyddo Blaenau i'w llawn potensial, heb anghofio ei gemau cudd, diwylliant cymunedol cryf, iaith a chyfleon a datblygiadau i'r dyfodol.

Trysorydd: Iris Fosbury, Eifion Stores.

Mae Chris a minnau wedi rhedeg Eifion Stores (Siop Draddodiadol Caledwedd) am bum mlynedd. Rydym newydd orffen atgyweirio'r siop gan gynnwys goleuadau, silffoedd, ail-addurno a system C.C.T.V.
Er ein bod wedi symud yma o Sussex, roedd fy nhad yn gwreiddio o Deganwy, ac mae fy chwaer a'm mam yn byw yn Llandudno.
Ein teulu: mae ein mab Kevin yn byw yn agos i Merthyr Tudfil gyda'i bartner a'u bychan, ac ein merch Amy yn byw yn Sussex gyda'i darpar-ŵr.
Rwyf hefyd yn ymwneud ag Eglwys Dewi Sant a Chymdeithas rhandiroedd.

Swyddog aelodaeth: Sue Roberts, Sue's Books & DeNiros

Symudais i Blaenau yn 1983, ac ers hynny wedi rhedeg 2 fusnes.
Mae Kevin a minnau wedi rhedeg y caffi ers 12 mlynedd ac agorwyd y siop lyfrau 18mis yn ol. Mae gennyf 3 merch a 6 o wyrion.

Swyddog marchnata a Chydlynydd y wefan: Alister Haveron, Dolawel

Ynghyd â fy ngwraig Pat rydym yn rhedeg Gwesty Dolawel ac fel busnes bach ar yr ochr rwyf yn rhedeg 'Snowdonia Outdoor Activities' fel aelod o Gymdeithas hyfforddwyr dringo. Roeddwn yn Beiriannydd trydanol a mecanyddol am dros 35 o flynyddoedd, gyda mwyafrif o'r amser yna o fewn yr adran reolaeth. Mae Pat yn wreiddiol o Lanllechid ac rwyf innau o Glens yn Antrin yng Ngogledd Iwerddon, ac rydym wedi bod yn byw yn Rhiw ers bron i 10 mlynedd. Rwyf wedi fy nyfarnu fel Aelod o Fedal Ymerodraeth Brydeinig, ac wedi derbyn medal Ymerodraeth Brydeinig am fy ngwasanaeth i'r gwasanaeth achub mynydd. Rwyf yn frwdfrydig i'r eithaf o hyrwyddo Blaenau fel ardal i dwristiaid, gan annog a chynorthwyo nhw i wneud y gorau o'r nifer o atyniadau twristiaeth gwych sydd gennym yma.

Digwyddiadau:

Mae yna dipyn go lew o ddigwyddiadau ar y gweill yn y dref lle mae modd i chi fuddio ohonynt:

Sadwrn 27ain o Ebrill. Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd ar gyder 2014. Mi fydd gorymdaith yn gadael Ysgol y Moelwyn, pasio EuroSpar, mynd dros y pont rheilffordd ar hyd Stryd yr Eglwys i Sgwar Diffwys lle cynhelir gwasanaeth y cyhoeddi am 11 y bore. Mae adloniant wedi ei drefnu trwy mwyafrif y dydd gyda llwyfan yn y maes parcio a S4C yn diddori. Mae maes parcio wedi ei drefnu at hyd at 400 o geir yn Llechwedd gyda Bysiau gwennol yn teithio'n rheolaidd drwy'r dydd i ganol y dref. **Peidiwch â cholli allan – Aroswch yn agored!**

Yn ogystal - "Llên y Llechi" yn y Lolfa Lenyddiaeth – 49 Stryd Fawr (Yr hen Go-op). Rhaglen 2 ddiwrnod llawr yn cynnwys sesiynnau acwstig ar y nos Wener (26ain) ac ar y Sadwrn (27ain) Stori a chân i blant, Bît-bocsio, barddoniaeth, Taith Gerdded Lenyddol o amgylch Blaenau a llawer mwy. Digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf i hybu Llenyddiaeth Cymru.

Sadwrn y 4ydd o Fai. Ffair Fai Llechwedd a phenblwydd 150 o stêm Rheilffordd Ffestiniog. Stondinau ac adloniant Fictorianaidd yn Llechwedd rhwng 10yb a 12.30yp. Mi fydd pobl wedyn yn cael eu hannog i deithio i'r stryd fawr am drosglwyddiad seremonîol o'r llechi yn y gorsaf gyda trên llechi yn cael ei thynnu gan "Prince", un o drenau stêm gwreiddiol o'r lein. Wedi hynny bydd canu a theatr yn y cysgodfan newydd uwchben y maes parcio ynghyd â theithiau tywys cerdded o amgylch y dref gan Huw Jenkins. Mi fydd teithwyr o Borthmadog yn cael eu hannog i aros yn y dref am gyfnod felly plîs gwnewch yn siwr eich bod chi'n hyrwyddo eich bod yn agored.

3ydd i'r 6ed o Fai. Digwyddiad 150 Stêm Rheilffordd Ffestiniog. Trenau ychwanegol a reidiau haenell droed ar gael o platfform Blaenau.

Sadwrn 11eg o Fai a 8fed o Fehefin. Sêl Bwrdd Blaenau Bendegedig 10yb – 1yp o fewn neuadd yr Eglwys i godi arian tuag at Tan Gwyllt a Noson Goleuo 'Stiniog.

Sul 16eg o Fehefin. Blaenau Bendegedig **Hwyl yn y Parc**. Stondinau, Hwyl i'r teulu oll a 'tug of war'!

Sul 23ain o Fehefin – Carnifal Tanygrisiau. Cysylltwch er mwyn archebu stondin. £5 am fwrdd i grwpiau cymunedol, £20 i fusnesau. Digonedd o adloniant gan gynnwys yr anhygoel Dawnswyr Morris a llawer, llawer mwy.

Newyddion Arall:

Er mwyn ceisio denu fwy o dwrisitaid yma rydym wedi cynnal taith ymgyfarwyddo gyda aelodau o Gymdeithas Adloniant Llandudno a wnaeth fwynhau eu hymweliad i'r dref yn fawr iawn. Roeddent wedi eu syfrdanu a'u plesio yma a bellach yn gyrru eu cwsmeriaid yma. Cyfarfu Clare â Chymdeithas Twristiaeth Betws y Coed yn ddiweddar sydd hefyd yn awyddus i ymweld â'r dref fel grwp.

Mae Alister yn gweithio'n galed gyda cwmni Delwedd i ddiweddaru'r wefan a sicrhau bod yr holl aelodau yn bresennol arno. Maent wedi bod yn gwynebu ychydig o broblemau yn ddiweddar felly byddwch yn amyneddgar gyda ni. Yn y cyfamser, os oes gennych stori newyddion da, digwyddiad, llun da a fyddai'n wych i roi ar y safle, gadewch iddo wybod. Mae ei e-bost ar dudalen 'cyswllt' o'r wefan.

Mae Coleg Llandrillo yn awyddus i chi fod yn ymwybodol o gynllun hyfforddiant Dyfodol sydd wedi ei ymestyn hyd at Orffennaf 2014. Mae'n ffordd rhad o gael mynediad i dewis eang o gyrsiau ac yn agored i bobl hunan-gyflogedig yn ogystal â busnesau. Mae Christine o'r coleg yn gobeithio mynychu'r cyfarfod nesaf ar y 29an o Ebrill.

Cyfarfod nesaf am 19:00 ar Nos Lun yr 29ain o Ebrill yn Siambr y Cyngor (Gyferbyn â siop Pysgod a Sglodion ar y stryd fawr). Mae croeso i'r aelodau i gyd i fynychu.

www.blaenauffestiniog.org
www.facebook.com/blaenauffestiniog